| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 3 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru<br>- Adroddiad Arolwg Ymgynghori |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Arolwg Ymgynghori i'w graffu |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Arolwg Ymgynghori Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 i sylw aelodau'r Pwyllgor Craffu. Mae'r asesiad anghenion yn cael ei lunio yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.2 Mae angen llunio a chyhoeddi'r asesiad ar ffurf adroddiad erbyn mis Ebrill 2022, ac mae'r amserlen dynn yn golygu nad yw'r asesiad ei hun yn derfynol eto. Cyflwynir i'r aelodau felly un o brif ffynonellau yr asesiad, sef yr adroddiad arolwg ymgynghori.

## 2 Y penderfyniad a geisir

2.1 Cefnogaeth y pwyllgor i'r adroddiad arolwg ymgynghori cyn cyflwyno'r asesiad anghenion i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo. .

2.2 Rydym yn parhau i weithio ar asesiad poblogaeth Gwynedd, a bydd hwn yn barodi i'w graffu erbyn Pwyllgor Craffu fis Medi. Gofynnir i aelodau'r pwyllgor nodi a oes unrhywbeth sy'n codi yn yr arolwg ymgynghori ranbarthol y maent yn dymuno inni roi sylw pellach iddo yn asesiad Gwynedd.

## 3 Manylion Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022

3.1 Mae'r Adroddiad Arolwg Ymgynghori yn gyfraniad allweddol i'r asesiad anghenion a gyflwynir i'r Cyngor ar 3 Mawrth, a cheir manylion amdano yn y paragraffau sy'n dilyn.

3.2 Mae Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn gofyn bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn asesu'r canlynol ar y cyd:

i) Y graddau y mae angen gofal a chefnogaeth ar bobl yn ardal yr awdurdod lleol.
ii) Y graddau y mae angen cefnogaeth ar ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol.
iii) Y graddau nad yw anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu diwallu.
iv) Yr ystod a'r lefel o wasanaethau sydd ei angen i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol.
v) Yr ystod a'r lefel o wasanaeth sydd ei angen i gyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol.
vi) Y camau gweithredu gofynnol i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a nodwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3 Mae'n rhaid i'r asesiad drafod y themâu / grwpiau canlynol o leiaf:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Anableddau Dysgu (Plant ac Oedolion)
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr

3.4 Mae'r asesiad yn trafod mannau diogel, digartrefedd a chyn-filwyr hefyd. Mae'r asesiad yn cael ei lywio gan y gofynion a nodwyd yn y cod ymarfer ar gyfer asesiad o anghenion poblogaeth, ac yn rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar y grwpiau a restrwyd. Mae pob pennod yn cynnwys asesiad o;

- Y Gymraeg (y 'cynnig gweithredol')
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol
- Effaith pandemig COVID-19
- Ystyriaethau diogelu
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwerth Cymdeithasol

3.5 Mae’r asesiad poblogaeth wedi ei arwain gan ymgysylltu. Derbyniwyd adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd, er mwyn nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Mae'r tîm rhanbarthol hefyd wedi bod yn casglu tystiolaeth drwy ddadansoddi data, adolygu dogfennau cefndir, ystyried adolygiadau o wasanaeth a gwaith ymgysylltu lleol ychwanegol.

## 4 Sut mae'r asesiad yn cyfrannu at flaenoriaethau’r Cyngor?

4.1 Mae'r asesiad o anghenion yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, a bydd hyn yn ei dro yn cefnogi blaenoriaethau pob awdurdod lleol yng nghyswllt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth.

4.2 Mae gorgyffwrdd rhwng yr asesiad anghenion poblogaeth a’r Asesiad Llesiant sydd wedi bod yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a rhennir gwybodaeth lle bo’r angen.

4.3 Defnyddir yr asesiad anghenion er mwyn paratoi’r cynllun ardal ar gyfer gogledd Cymru a gyhoeddir yn 2023.

## 5 Ymgysylltu

5.1 Roedd ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a thystiolaeth; ynghyd ag adborth o waith ymgysylltu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Derbyniwyd cyfanswm o 350 ymateb i’r holiadur, ac mae’r adroddiad llawn wedi’i atodi (Atodiad 1).

5.2 Cafodd map budd-ddeiliad ei lunio a’i adolygu, mae’r map yn rhestru'r holl grwpiau poblogaeth sydd efallai angen gwasanaethau gofal a chefnogaeth i sicrhau bod gymaint o bobl â phosib yn cael cyfle i leisio eu barn. Mae hyn hefyd yn cynnwys grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd.

5.3 Mae’r Adroddiad Arolwg Ymgynghori yn nodi:

i) Pwy rydan ni wedi ymgynghori â nhw

ii) Sut wnaed yr ymgynghoriad -

iii) Beth oedd yr adborth, sef, beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd angen ei wella, beth newidiodd yn ystod cyfnod y pandemig COVID 19, a sut allwn ni adfer pethau

5.4 Mae'r prif ganfyddiadau yn nodi fod angen:

i) Gwella'r cyswllt rhwng y trydydd sector a gwasanaethau rheng flaen

ii) Bod angen mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar

iii) Er mwyn gallu recriwtio a chadw staff bod gwasanaethau angen cyllid tymor hirach, a mwy o sicrwydd am ffynonellau cyllidol

**6 Goblygiadau adnoddau**

Bydd yr asesiad anghenion poblogaeth yn adnabod blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, efallai y bydd y blaenoriaethau hyn angen elfen o fuddsoddiad ar lefel ranbarthol neu leol.

**7 Asesiad o Effaith**

Mae'r Llywodraeth wedi tynnu'r gofyn am Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar yr asesiad o anghenion fel adroddiad ynddo'i hun. Mae'r asesiad o anghenion yn cynnwys dadansoddiad ac ymchwil ar gydraddoldeb, hawliau dynol ac economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob grŵp sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad o anghenion.

**8 Argymhelliad**

8.1 Bod y pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad arolwg ymgynghori i'w gyflwyno gyda Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 i'r Cabinet a'r Cyngor.

8.2 Bod y pwyllgor yn nodi a oes unrhywbeth sy'n codi yn yr arolwg ymgynghori rhanbarthol y maent yn dymuno inni roi sylw pellach iddo yn asesiad Gwynedd.